**Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol**

**Communities, Equality and Local Government Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Jane Hutt AC
Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

4 Mawrth 2013

Annwyl Weinidog

**Ymgynghoriad ynghylch rhoi Deddf Cartrefi Symudol 1983 ar waith ar safleoedd Sipsiwn a Theithwyr awdurdodau lleol.**

Fel y gwyddoch o bosibl, cwblhaodd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ei waith o graffu ar Fil Safleoedd Rheoleiddiedig Cartrefi Symudol (Cymru) Peter Black yng Nghyfnod 1 yn ddiweddar. Ceisia'r Bil ddiweddaru'r fframwaith deddfwriaethol a'r system drwyddedu ar gyfer safleoedd cartrefi symudol yng Nghymru drwy osod dyletswydd ar awdurdodau lleol i sefydlu, monitro a gorfodi system drwyddedu safleoedd cartrefi symudol newydd; rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau rheoli; a moderneiddio nifer o agweddau ar y berthynas gytundebol rhwng perchnogion cartrefi symudol a gweithredwyr safleoedd. Mae'r Bil, fel y'i drafftiwyd, yn gorfodi awdurdodau lleol i ystyried buddioldeb cyd-weithredu er mwyn cyflawni'u dyletswyddau, ac yn cyflwyno prawf person addas a phriodol ar gyfer perchnogion a rheolwyr safleoedd.

Dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil wrth y Pwyllgor, ar 14 Tachwedd 2012, mai bwriad y Bil oedd canolbwyntio'n benodol ar safleoedd cartrefi symudol, ac nad oedd yn bwriadu iddo fod yn berthnasol i safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. Mae Adran 1 o'r Bil, fel y'i drafftiwyd, yn diffinio "safle rheoleiddiedig" y mae'r Bil yn berthnasol iddo fel:

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh
Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol / Communities, Equality and Local Government Committee
Gwasanaeth y Pwyllgorau / Committee Service
Ffôn / Tel : 029 2089 8429
Ebost / Email : CELG.Committee@wales.gov.uk

"safle gwarchodedig yng Nghymru y mae o leiaf un cartref symudol wedi ei osod arno o dan gytundeb y mae Deddf Cartrefi Symudol 1983 (p.34) (“Deddf 1983”) yn gymwys iddo".

Ar hyn o bryd felly, nid yw'r Bil, fel y'i drafftiwyd, yn berthnasol i safleoedd Sipsiwn a Theithwyr Awdurdodau Lleol nad ydynt o fewn darpariaethau Deddf 1983.

Ysgrifennaf atoch i dynnu eich sylw, pe baech yn penderfynu diwygio Deddf 1983 i gynnwys safleoedd Sipsiwn a Theithwyr awdurdodau lleol o fewn y diffiniad o “safleoedd gwarchodedig”, canlyniad anfwriadol hyn fyddai bod safleoedd o'r fath hefyd o fewn darpariaethau Bil Safleoedd Rheoleiddiedig Cartrefi Symudol (Cymru), ac i ofyn i chi roi ystyriaeth ddyledus i hyn wrth wneud eich penderfyniad.

Amgaeaf gopi o adroddiad y Pwyllgor yng Nghyfnod 1, a gyhoeddwyd ddydd Iau 21 Chwefror, er gwybodaeth i chi.

Yn gywir



**Ann Jones AC**
Cadeirydd

cc John Davies, Equality, Diversity and Inclusion Division